



		Diffiniad
Goddefgarwch		<p>'Mae goddefgarwch yn golygu parchu, derbyn a gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog o ddiwylliannau ein byd, ein mathau o fynegiant a ffyrdd o fod yn ddynol. Mae'n cael ei feithrin gan wybodaeth, didwylledd, cyfathrebu a rhyddid meddwl, cydwybod a chred. Mae goddefgarwch yn gytgord mewn gwahaniaeth [-] Mae goddefgarwch, yn anad dim, yn agwedd weithredol a ysgogir gan gydnabyddiaeth o hawliau dynol cyffredinol a rhyddid sylfaenol eraill '(UNESCO 1995, 5).</p> <p>Mae goddefgarwch yn cynnwys atal bwlio ac agwedd agored tuag at amrywiaeth mynegiant diwylliannol.</p>
Empathi		<p>Diffiniwyd empathi fel 'yr hyn sy'n digwydd pan rydyn ni'n rhoi ein hunain yn sefyllfa rhywun arall ac yn profi emosiynau'r unigolyn hwnnw fel pe bai'n eiddo i ni ein hunain' (Lipman 2003, 269).</p> <p>Mae empathi'n cynnwys cyd-ddealltwriaeth.</p>
Cynhwysiad		<p>Gellir diffinio cynhwysiant fel yr agweddau a'r camau gweithredu sy'n sail i gyfranogiad unigolyn mewn deialog ar draws amlrywiaeth. Er mwyn hwyluso cydweithredu, dylai unigolion werthfawrogi amlrywiaeth, parchu eraill a bod yn barod i oresgyn rhagfarnau a chyfaddawdu (Senedd Ewrop, Cyngor yr Undeb Ewropeaidd 2006).</p>
Cyd-fyw	Dathlu Amlrywiaeth	<p>Dathlu gwahaniaethau diwylliannol. Mae hyn yn cynnwys dysgu adnabod eich diwylliant eich hun, ei werthfawrogi a datblygu eich hunaniaeth ddiwylliannol eich hun.</p>
	Hawliau dynol	<p>Yr 'hawliau a'r rhyddid sylfaenol ym mhob agwedd ar fywydau pobl' (Cyngor Ewrop 2010, 8).</p>
	Democratiaeth	<p>Rhoi cyfle i ddinasyddion gymryd rhan yn uniongyrchol mewn dimensiynau gweithdrefnol a chymdeithasol gwneud penderfyniadau.</p>
	Cyfiawnder	<p>Mynd ati i geisio cyflawni'r sefyllfa o fod yn gyfartal, yn enwedig o ran statws, hawliau neu gyfleoedd</p>
	Undod	<p>Gweithredu ar y cyd, rhannu manteision (h.y. ffyniant) a beichiau yn gyfartal ac yn deg. Mae hyn yn arwain at ymdeimlad o gyfrifoldeb cymdeithasol ac mae'n gwbl gysylltiedig ag empathi.</p>
	Globaleiddio	<p>Y broses o ryngweithio ac integreiddio rhwng pobl, cwmnïau, a llywodraethau ledled y byd.</p>

--	--	--

Cyfrifoldeb Cymdeithasol	Datblygiad cynladwy / newid hinsawdd	Mae hyn yn ymwneud â materion cymdeithasol ac economaidd ac fe'i diffinnir fel 'diwallu anghenion cenedlaethau presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain' (h.y. sicrhau ansawdd bywyd gwell i bawb, nawr ac am genedlaethau i ddod). Un agwedd ar ddatblygiad cynladwy yw mynd i'r afael â newid hinsawdd.
	Dinasyddiaeth	Bod yn aelod o wlad a bod â hawliau a chyfrifoldebau oherwydd hynny. Ystyrir bod unrhyw wladolyn o wlad yr UE yn ddinesydd yr UE. Nid yw dinasyddiaeth yr UE yn disodli dinasyddiaeth genedlaethol: mae'n ychwanegu ati. Mae dinasyddiaeth yn gysylltiedig â goddefgarwch a democrataeth, gyda dinasyddiaeth weithgar yn cael ei diffinio fel 'adeiladu cymdeithas agored a democrataidd' (Cyngor Ewrop a'r CE 2015, 25)
	Cymhwystra cymdeithasol a dinesig	Mae'r rhain yn cynnwys cymhwystra personol, rhyngpersonol a rhyng-ddiwylliannol ac maent yn cwmpasu pob math o ymddygiad sy'n galluogi unigolion i gymryd rhan mewn ffordd effeithiol ac adeiladol mewn bywyd cymdeithasol a gwaith, ac yn enwedig mewn cymdeithasau cynyddol amrywiol, ac i ddatrys gwrthdaro lle bo angen. Mae cymhwystra dinesig yn galluogi unigolion i gymryd rhan lawn mewn bywyd dinesig, yn seiliedig ar wybodaeth am gysyniadau a strwythurau cymdeithasol a gwleidyddol ac ymrwymiad i gyfraniad cyson a democrataidd (Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd 2006)
	Cyfraniad cyson	Yn cyfeirio at gyfraniad unigolyn mewn perthynas â meysydd dinesig, gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, cyfreithiol a diwylliannol cymdeithas.
	Cyd-weithio	Gweithio gyda'n gilydd er lles pawb. Mae hyn yn digwydd ar amrywiaeth o lefelau, o unigolion i wledydd.
Perthyn	Dull o gysyniadoli aelodaeth mewn cymunedau a rennir (ee teuluoedd, ysgolion, clybiau, ardaloedd) neu deimlad o berthyn i gymuned. Mae hyn yn ymgorffori herion diwylliannol, mynegiant o'r ffyrdd o fyw a ddatblygwyd gan gymuned a'u trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth a'r ymdeimlad o etifeddiaeth a rennir, yn ogystal â'r naratifau cyffredin sy'n llunio cymuned benodol, megis mathau o fudo, yn orfodol ac yn wirfoddol.	